O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2445 (Cy.263)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

Gwnaed	*7 Hydref 2011*
Yn dod i rym	*17 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 06.00 o'r gloch ar 17 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd"("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 o Faentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy, yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt 300 o fetrau i'r gogledd o'r cyfyngiad 30 mya i'r gogledd o Lanrwst hyd at bwynt 50 o fetrau i'r de o'r eiddo a elwir Crud y Gwynt, i'r de o Lanrwst.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.